Annwyl *(rhowch enw eich AS)*

Rwyf yn etholwr/wraig yn *(rhowch enw eich etholaeth)*. Rwy'n sgrifennu atoch am fy mod yn pryderu'n fawr fod UDA yn paratoi i uwchraddio ei harfau niwclear a leolir yng Ngwlad Belg, yr Iseldiroedd, yr Almaen, yr Eidal a Thwrci, a bod llywodraeth y DU wedi cytuno – heb drafodaeth yn San Steffan – y câiff yr UD leoli arfau niwclear yn y DU eto, yn RAF Lakenheath, Suffolk. Mae hyn nid yn unig yn gwbl annemocrataidd ond yn fygythiad dirfodol i bobl ym mhob man.

Dydy arfau niwclear yr UD ddim yn ein diogelu: maen nhw'n gwneud targed ohonom a'n clymu wrth bolisi tramor yr UD. Mae lleoli mwy o'i harfau niwclear yn Ewrop yn ystod rhyfel Rwsia ar Wcráin ond yn cynyddu tensiynau rhwng Rwsia ac Ewrop. Yr UD yw'r unig wlad yn y byd sy'n lleoli ei harfau niwclear y tu allan i'w ffiniau ei hun.

Mae Lakenheath yn gartref i 48fed Asgell Ymladd yr UD, y llu mwyaf o bersonél USAF ym Mhrydain, rhyw 6,000 i gyd. Byddant yn hedfan yr awyren ryfel ddiweddaraf â'r gallu i gludo bomiau niwclear – yr F-35A. Disgwylir iddynt ddechrau hyfforddi gyda bomiau niwclear cyfeiriedig B61-12 yn 2023.

Mae tua 150 o fomiau disgyrchiant niwclear B61 Americanaidd eisoes wedi'u lleoli mewn pum gwlad yn Ewrop: Gwlad Belg, yr Almaen, yr Iseldiroedd, yr Eidal a Thwrci, fel rhan o bolisi amddiffyn NATO. Lluoedd yr UD sy'n gwarchod y storfeydd arfau niwclear yn y gwledydd hyn, gyda system cod deuol yn weithredol adeg rhyfel – byddai'n rhaid i'r wlad lle'u lleolir a'r UD ill dwy gymeradwyo defnyddio'r arfau.

Testun pryder mawr i mi hefyd yw hanes y damweiniau sydd wedi digwydd yn Lakenheath. Mae'n hysbys y bu dau anap difrifol o leiaf gydag arfau niwclear yn RAF Lakenheath.

Ym 1956 tarodd awyren fomio B-47 ar daith hyfforddi feunyddiol uned storio yn dal arfau niwclear, gan ladd pedwar o ddynion. Datganodd dogfennau swyddogol yr UD ei fod yn 'wyrth' na ffrwydrodd yr un o'r bomiau, a'i bod 'yn bosibl y byddai rhan o Ddwyrain Lloegr wedi troi'n anialwch'.

Ym 1961 aeth awyren yn cludo bom niwclear ar dân wedi camgymeriad gan y peilot. Cafodd y bom ei 'ddeifio a'i bothellu', a chanfu gwyddonwyr yn ddiweddarach y gallai fod wedi ffrwydro dan amgylchiadau fymryn yn wahanol.

Celwyd y ddau ddigwyddiad gan lywodraethau'r UD a Phrydain, a dim ond ym 1979 a 2003 y cyfaddefwyd y naill a'r llall.

Erbyn hyn, arwyddodd 98 o ASau EDM 98: Storio arfau niwclear yr UD yn y DU

Dywed EDM 98: *"Testun pryder mawr i'r Tŷ hwn yw bod y Deyrnas Unedig wedi'i hychwanegu at restr yr Unol Daleithiau o leoliadau safleoedd storio arfau niwclear yn Ewrop ac, yn ôl gwybodaeth a ryddhawyd gan lywodraeth yr Unol Daleithiau, bod y safleoedd storio hyn yn cael eu huwchraddio; bod hyn yn arwydd o newid yn statws niwclear RAF Lakenheath, a'i bod yn bosibl, ar ôl cael eu symud oddi yno yn 2008, bod arfau niwclear yr UD eisoes wedi'u dychwelyd yno neu y bydd yn derbyn arfau niwclear yn y dyfodol; yn condemnio gwrthodiad y Weinyddiaeth Amddiffyn i wneud*

*sylw ar y wybodaeth hon wrth aelodau'r Tŷ hwn; yn nodi y rhedir RAF Lakenheath, er ei fod yn eiddo i'r Weinyddiaeth Amddiffyn, gan Awyrlu'r Unol Daleithiau; yn nodi ymhellach bod storio arfau niwclear gwlad arall ar dir y DU yn gosod dinasyddion y DU mewn mwy o berygl o ymosodiad niwclear; ac yn galw ar y Llywodraeth i wrthod derbyn arfau niwclear yr Unol Daleithiau yn RAF Lakenheath ac i ddefnyddio pob ymdrech ddiplomyddol bosibl i leihau tensiynau niwclear presennol."*

Mae hyn yn ychwanegu at y pryder na fu unrhyw drafodaeth seneddol ar y mater hwn a bod lleoli arfau niwclear y UD yn Lakenheath yn cael ei hebrwng drwodd heb drafodaeth iawn na dadl gyhoeddus.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych ar y mater hwn.

Cofion gorau,

*(rhowch eich enw, cyfeiriad a chod post)*